

YMATEB LLYWODRAETH CYMRU I ARGYMHELLION ADRODDIAD Y PWYLLGOR PLANT, POBL IFANC AC ADDYSG: ABSENOLDEB DISGYBLION.

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg IONAWR 2023

Gwyddom fod amryw o resymau neu achosion sylfaenol dros absenoldeb dysgwyr, a bod hyn wedi gwaethygu ymhellach dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Mae'r ddwy flynedd ddiwethaf wedi bod yn anhygoel o anodd i nifer o deuluoedd ac mae'n ddealladwy bod nifer wedi bod yn bryderus. Rydym wedi parhau i fod yn ymwybodol o'r pryderon hyn fodd bynnag mae'r cydbwysedd rhwng y gwahanol fathau o niwed yn glir erbyn hyn ac rydym yn gwybod bod ar bobl ifanc angen mynd i'r ysgol, gweld eu ffrindiau, a dysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn yn hanfodol i'w lles yn ogystal ag i'w haddysg.

Mae'r Pwyllgor eisoes yn ymwybodol o'n bwriad i ddatblygu canllawiau presenoldeb newydd, ond o ystyried y cysylltiadau rhwng presenoldeb, gwaharddiadau, ac ymddygiad, rydym yn adolygu'r holl ganllawiau yn y maes hwn ar hyn o bryd.

Bydd ein canllawiau newydd yn canolbwyntio ar y plentyn, ac wedi'i seilio ar arfer gwybodus ynghylch trawma yn ogystal â thystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio ar lawr gwlad. Bydd yn nodi'r rolau hanfodol y mae Gwasanaethau Lles Addysg Awdurdodau Lleol, lleoliadau addysg, llywodraethwyr, a rhieni a'r rhai sy'n rhoi gofal yn eu chwarae, wrth sicrhau a chynnal ymgysylltiad a phresenoldeb dysgwyr.

Ein nod yw ymgynghori ar yr holl ganllawiau a adnewyddwyd yn y Gwanwyn, gyda'r bwriad o'u cyhoeddi ym mis Medi 2023.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg am eu hadroddiad, ac rwy'n croesawu'r argymhellion, sy'n cyd-fynd yn llwyr â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru yn y maes hwn.

Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

Argymhelliad 1. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch genedlaethol i bwysleisio effeithiau cadarnhaol presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol. Ochr yn ochr â hyn, dylai Llywodraeth Cymru roi cymorth i awdurdodau lleol ac ysgolion gynnal ymgyrchoedd cadarnhaol lleol, tebyg ynghylch presenoldeb yn yr ysgol. Dylai'r ymgyrchoedd gwahanol atgyfnerthu negeseuon o'r ymgyrchoedd eraill. *Tudalen 26*

Ymateb: Derbyn

Byddwn yn cynyddu cyfathrebiadau â rhieni a gofalmwr gan fynd i'r afael ag unrhyw bryderon sy'n parhau i fod ganddynt ac yn pwysleisio pwysigrwydd mynd i'r ysgol. Bydd Ysgolion â Ffocws Cymunedol yn chwarae rhan allweddol wrth ymateb i'r her hon. Mae Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn hanfodol o ran sicrhau bod partneriaethau cadarnhaol yn cael eu creu, a bod cymorth pwrpasol yn cael ei gynnig.

Goblygiadau Ariannol - Bydd unrhyw gostau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu astudiaeth frys i sut y mae'r argyfwng costau byw yn cael effaith ar allu disgyblion i fynd i'r ysgol. Dylai hyn gael ei wneud o fewn dau fis yn dilyn ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad hwn a dylid sicrhau ei fod ar gael i'r cyhoedd. Dylai'r adolygiad gael ei ategu gan gynllun gweithredu sy'n nodi pa waith fydd yn cael ei wneud er mwyn mynd i'r afael â'r materion y tynnwyd sylw atynt yn yr adroddiad. *Tudalen 26*

Ymateb: Derbyn

Bydd yn heriol comisiynu hyn o fewn yr amserlenni y cyfeirir atynt. Fodd bynnag, rydym eisoes mewn trafodaethau anffurfiol ag Awdurdod Lleol ynghylch syniad am waith ymchwil y maent wedi bod yn ei ddatblygu i edrych yn fanwl ar bresenoldeb mewn lleoliadau uwchradd, gan ganolbwyntio ar ba ddulliau ac ymyriadau sy'n dod â'r budd mwyaf i deuluoedd incwm is ac i'w hymgysylltiad ag addysg.

Goblygiadau Ariannol - Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith ymchwil hwn yn costio tua £70 mil ond gellir tynnu hyn o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau mai anghenion unigol a phenodol plant a phobl ifanc sy'n sail i benderfyniadau ar deithio gan ddysgwyr. Er mwyn helpu awdurdodau lleol i fabwysiadu'r dull hwn, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod gan awdurdodau lleol ddigon o gyllid i sicrhau bod gan yr holl blant a phobl ifanc fynediad at opsiynau trafniadaeth priodol i gyrraedd yr ysgol yn ddiogel. Dylai'r adolygiad presennol edrych ar flaenoriaethu datrysiad dysgwr yn gyntaf; a dylai fod yn radical wrth chwilio am ddatrysiadau arloesol. *Tudalen 26*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Mae llawer wedi newid ers i'r mesur Teithio gan Ddysgwyr ddod i rym yn 2008.

Rydym yn dal yn bwriadu cynnal adolygiad pellach ond mae'n debygol y bydd y ffordd rydym yn bwrw ymlaen ag unrhyw waith a fydd yn deillio o'r adolygiad hwnnw yn cymryd amser ac adnoddau.

Bellach, mae cludiant rhwng y cartref a'r ysgol i gyfrif am chwarter holl wariant uniongyrchol yr awdurdodau lleol ar addysg - mae hwn yn gost gynyddol.

Yn ystod 2020, gwnaethom adolygiad o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr presennol a oedd yn cynnwys casglu tystiolaeth gychwynnol. Daeth o hyd i wendidau mewn rhwydweithiau a seilwaith presennol sy'n gwneud mynd ati i ehangu'r ddarpariaeth yn anodd. Gwelsom fod anghysondeb yn y ddarpariaeth ar draws Cymru gyfan.

Yn hytrach na mân newidiadau, mae'n rhaid dod o hyd i gynllun cynaliadwy hirdymor.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi Papur Gwyn, Un Rhwydwaith, Un Amserlen, Un Tocyn, sy'n cyflwyno gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid gwasanaethau bysiau yng Nghymru. Bydd y bil arfaethedig yn cynnig cyfle i ni edrych o'r newydd ar ddarparu gwasanaethau bws ledled Cymru, gan gynnwys darparu cludiant i'r ysgol.

Er bod y trothwy pellter i fod yn gymwys ar gyfer cludiant ysgol am ddim yn fater allweddol, mae yna ystyriaethau sylweddol eraill hefyd. Rydym bellach yn edrych ar sut y gallwn fwrw ymlaen â rhaglen waith ehangach i wella darpariaeth gweithredwyr, a chysoni cludiant yn well â nodau polisi ehangach eraill, fel darpariaeth cyfrwng Cymraeg, cefnogi disgyblion ADY ac ystyried darpariaeth i sefydliadau Addysg Bellach.

Gan fod ein nodau'n uchelgeisiol, bydd y diwygiadau hyn yn cymryd amser, ond mae'n hanfodol ein bod yn cael hyn yn iawn er mwyn cefnogi dysgwyr a'n rhaglen ddiwygio ehangach. Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol i annog cysondeb o ran dull gweithredu.

Mae ei gwneud yn bosibl i fwy o blant gerdded, seiclo neu fynd ar sgwter i'r ysgol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru.

Rydym yn ariannu gwelliannau i lwybrau a chyfleusterau cerdded a seiclo drwy ein Cronfa Teithio Llesol a'r Grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau bob blwyddyn.

Rhaid i bob awdurdod lleol gynllunio rhwydweithiau o lwybrau cerdded a seiclo, wedi'u dangos ar fapiau'r Rhwydwaith Teithio Llesol. Rydym wedi'i gwneud yn amod fod rhaid i bob ysgol gael ei gwasanaethu gan lwybrau teithio Llesol. Caiff y rhain fod yn llwybrau cerdded a/neu seiclo.

Yn ogystal, rydym yn annog awdurdodau lleol ledled Cymru i gyflwyno Strydoedd Ysgolion, sy'n golygu cau strydoedd o gwmpas ysgolion ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, er mwyn gwella'r amodau ar gyfer cerdded a seiclo, gwella diogelwch ar y ffyrdd a lleihau llygredd aer. Rydym wedi cynnig arian i bob awdurdod lleol â diddordeb mewn cynnal gwaith paratoadol ar gyfer rhoi cynlluniau Strydoedd Ysgolion ar waith, os gallant ddangos eu bod wedi ymrwmo i fwrw ymlaen â'r cynlluniau.

Rydym yn gweithio gyda Sustrans i helpu ysgolion i ddatblygu Cynlluniau Ysgol ar gyfer Teithio Llesol, sy'n bwriadu nodi rhwystrau rhag teithio Llesol i'r ysgol a mynd i'r afael â nhw, a chynyddu'r nifer o ddisgyblion a staff sy'n cerdded, seiclo neu'n defnyddio sgwter yn rheolaidd. Mae set o adnoddau a dulliau gweithredu'n cael ei dreialu ar hyn o bryd, gyda'r bwriad o ddechrau eu cyflwyno'n genedlaethol yn 2023. May hyn yn cyd-fynd â'n rhaglen Teithiau Llesol hir sefydlog, a'n hyfforddiant seiclo a cherdded llwybrau i blant.

Goblygiadau Ariannol - Gellir talu cost adolygiad pellach o deithio gan ddysgwyr o gyllidebau presennol. Gall unrhyw newidiadau i ddarpariaeth o ganlyniad i'r adolygiad arwain at gostau ychwanegol y byddai angen eu hystyried.

Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu sut y mae'n bwriadu bwrw ymlaen â'r gwaith, gan edrych ar y defnydd o ddata presenoldeb i gefnogi ymyriadau cynnar. Wrth ddarparu'r manylion hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu amserlen amlinellol ar gyfer cyflawni'r gwaith hwn. *Tudalen 38*

Ymateb: Derbyn

Mae ein Fframwaith ar gyfer Ymgorffori Dull Gweithredu Ysgol Gyfan mewn Perthynas â lechyd Meddwl a Lles Emosiynol (Mawrth 2021) yn tynnu sylw at yr angen i ysgolion ddefnyddio'r amrywiaeth o ffynonellau data sydd ar gael iddynt wrth ystyried anghenion lles eu cymuned, o ran darpariaeth gyffredinol a chefnogaeth benodol wedi'i thargedu ar gyfer y rhai sydd ei angen. Mae ysgolion yn casglu amrywiaeth o ddata a gwybodaeth, y gellir eu defnyddio i lywio a deall lles y dysgwyr a staff yr ysgol fel ei gilydd ac sy'n cynnwys gwybodaeth am gyfraddau absenoldeb ac am waharddiadau. Yn dilyn cyhoeddi'r Fframwaith rydym yn gweithio gyda rhanddeiliaid i gefnogi ei roi ar waith a hefyd i ystyried sut i fesur yr effaith.

Fel rhan o'n rhaglen waith at y dyfodol byddwn yn ystyried sut y gellir defnyddio data ar absenoldeb a gwaharddiadau i helpu i lywio sut mae ysgolion yn cefnogi lles dysgwyr i atal absenoldeb parhaus a gwaharddiadau.

Goblygiadau Ariannol - Mae'n debygol y bydd goblygiadau ariannol ond mae'n debygol y bydd costau ychwanegol yn dod o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn monitro deilliannau addysgol a'r cysylltiadau â chyfraddau presenoldeb, ac yn cyhoeddi'r data hyn yn rheolaidd. *Tudalen 44*

Ymateb: Derbyn mewn egwyddor

Un o'r prif egwyddorion sydd y tu ôl i'r cwricwlwm newydd yw bod pob dysgwr yn gallu symud ymlaen ar hyd eu llwybrau eu hunain er mwyn eu galluogi i symud yn hyderus i'w camau nesaf mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant. Mae hyn yn fwrriadol ac yn weithredol gynhwysol o ran dysgwyr difreintiedig, gan gynnwys y rhai sy'n ddifreintiedig yn economaidd-gymdeithasol a'r rhai sydd ag ADY.

Rydym yn cydnabod y cysylltiad rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad addysgol ac mewn egwyddor byddem yn cefnogi unrhyw bolisi sy'n annog dysgwyr i fynd i'r ysgol.

Mae adroddiad Ymchwil Cymdeithasol y Llywodraeth a ddatblygwyd gan Arad Research, *Astudiaeth gwmpasu ar gyfer gwerthuso diwygiadau i'r cwricwlwm ac asesu yng Nghymru*, a'r adroddiad Cyllid Cymdeithasol ar anghenion gwybodaeth y system ysgolion, gyda'i gilydd yn nodi sut y gellid defnyddio gwybodaeth am y system ysgolion yn fwyaf adeiladol i gefnogi cynnydd dysgwyr, gwella ysgolion, a'i gyhoeddi i ddisgrifio canlyniadau addysgol ar lefel genedlaethol. Bydd yr

adroddiadau hyn yn llywio ein dull o ymdrin â'r materion hyn. Bydd yn cymryd amser i ddatblygu hyn. Cafodd cyhoeddi data presenoldeb a data cymwysterau ar Fy Ysgol Leol ei ohirio yn ystod y pandemig: mae'r trefniadau hyn yn ystyriaethau ar gyfer y tymor hwy fel rhan o dirwedd wybodaeth ehangach sy'n hyrwyddo ffocws ar les dysgwyr ac athrawon, cyrhaeddiad ar bob lefel, cynnydd i'r camau nesaf, ac ymgysylltu â'r gymuned a rhieni.

Goblygiadau Ariannol —Rydym yn disgwyl i gostau'r argymhelliad hwn gael eu bodloni o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 6. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data manylach am y rhesymau dros ddadgofrestru a dychwelyd i ysgolion ar ôl dadgofrestru, ochr yn ochr â data ar y cymorth a ddarperir i deuluoedd. Dylai'r data hyn gael eu dadgyfuno gan awdurdod lleol a dylent nodi demograffigau allweddol, megis oedran, rhyw, ethnigrwydd, anabledd, a chymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim. *Tudalen 51*

Ymateb: Derbyn

Rydym yn gweithio gyda Data Cymru (CLILC) i wella ansawdd a lefel y data a gofnodir gennym ar hyn o bryd yng nghyswllt dadgofrestru a demograffeg allweddol y garfan hon, gan gynnwys y rhesymau dros ddadgofrestru.

Gyda'r disgwyliad y bydd y cynigion Addysg Ddewisol yn y Cartref newydd yn cael eu rhoi ar waith yn 2023, gan gynnwys y pecyn cymorth ehangach, rydym yn bwriadu casglu data ychwanegol i'n helpu i werthuso'r effaith ar ddysgwyr Addysg Ddewisol yn y Cartref.

Goblygiadau Ariannol – Dim. Tynnir unrhyw gostau ychwanegol o gyllidebau rhaglenni presennol.

Argymhelliad 7. Bod Llywodraeth Cymru, fel rhan o'i hadolygiad presennol o bolisi a chanllawiau ar bresenoldeb ysgol, yn cytuno ac yn gosod trothwyon cyson ar gyfer ymyrryd sy'n gymwys ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. *Tudalen 71*

Ymateb: Derbyn

Gweithredir hyn fel rhan o ddatblygu canllawiau diwygiedig.

Goblygiadau Ariannol – Ar hyn o bryd mae'r rhain yn anhysbys. Mae gan unrhyw newid i drothwyon ar gyfer ymyriadau oblygiadau i awdurdodau lleol o ran adnoddau. Bydd angen ystyried hyn ymhellach ynghyd â dadansoddiad o'r costau posibl i gefnogi awdurdodau lleol gydag unrhyw newidiadau. Bydd diweddariad pellach yn cael ei ddarparu.

Jeremy Miles AS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg